



Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 26AIN MAWRTH, 2019**

Lleoliad

**Parlwr Mawr, Theatr y Ddraig, Barmouth Community Centre, Jubilee Road,  
Barmouth, Gwynedd. LL42 1EF**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**[lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru](mailto:lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru)**

(DOSBARTHUYD Dydd Llun, 18 Mawrth 2019)

## **AELODAETH:**

### **Cyngor Gwynedd:**

Louise Hughes  
Eryl Jones-Williams  
Gethin Glyn Williams (Cadeirydd)

### **Aelodau Cyfetholedig:**

Cynghorydd Rob Triggs  
Cynghorydd R A Williams  
Dr John Smith  
Wendy Ponsford  
John Johnson

Mark James  
Martin Parouty  
Sedd wag  
Sedd wag

Cyngor Tref Abermaw  
Grwp Gwella Cyrchfannau Abermaw  
Grwp Mynediad Traphont Abermaw  
Clwb Hwyllo Merioneth  
Cymdeithas Pysgota Abermaw a Bae  
Ceredigion  
Cymdeithas y Bad Achub  
Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw  
Cyngor Cymuned Arthog  
Pwyllgor Ras y Tri Copa

### **Sylwedyddion:**

Peter Read  
Dr John Jones-Morris  
Ioan Thomas

Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli  
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog  
Aelod Cabinet Datblygu'r Economi

# **RHAGLEN**

## **1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## **2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## **3. COFNODION**

4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 23.10.2019 fel rhai cywir

## **4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI'R HARBWR**

9 - 17

I ystyried adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau

## **5. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

I nodi cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar 22ain o Hydref 2019

---

## PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW 23/10/18

---

### YN BRESENNOL:

**Aelodau:** Cyng. Gethin Glyn Williams (Cyngor Gwynedd), Cyng. Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd), Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Cyng. R. Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Cyng. Mark James (RNLI), Mrs Wendy Ponsford (Aelod o Glwb Hwyllo Meirionnydd)

**Swyddogion:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Glyn Jones (Harbwr Feistr Abermaw), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau) a Mererid Watt (Cyfieithydd)

**Erail a wahoddwyd:** Mike Scott (Ymddiriedolaeth Mwynderau'r Friog) ar gyfer eitem 8 yn unig.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Ioan Ceredig Thomas (Aelod Cabinet - Economi), Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw), Mr Martin Parouty (Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw) a Mr Mike Ellis (Pwyllgor Ras y Tri Chopa)

### 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ail ethol y Cynghorydd Gethin Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2018/19.

### 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ail ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2018/19.

### 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan yr aelodau isod am y rhesymau a nodir:

- (a) Cyng. Gethin Williams – aelod o'r Ymddiriedolaeth Cymunedol
- (b) Mrs Wendy Ponsford – aelod o'r Clwb Hwyllo, aelod o'r Ymddiriedolaeth Cymunedol
- (c) Cyng. Rob Triggs – aelod o'r Ymddiriedolaeth Cymunedol, aelod o'r Clwb Hwyllo

Ni fu i'r Aelodau bleidleisio ar faterion a oedd yn ymwneud â'u buddiant personol.

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2018, fel rhai cywir.

Dymunwyd ymddeoliad hapus i Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau) am ei chefnogaeth a'i gwasanaeth i'r Pwyllgor dros y blynyddoedd.

#### **Materion yn codi o'r cofnodion:**

- (a) **Cynnal a Chadw**  
Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i holi'r Uwch Swyddog Harbyrau a Harbwr Feistr Abermaw am raglen waith cynnal a chadw dros gyfnod y gaeaf.

**(b) Digwyddiadau**

Derbyn bod lle i wella'r broses o atgoffa trefnwyr i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Morwrol yn gyntaf i gael caniatâd i gynnal gweithgareddau a chryfhau trefniadau o ddydd i ddydd.

Adroddwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal ynglŷn â digwyddiad Motorcross yn gwrthdaro gyda gwyliau Hanner Tymor Gwynedd a'r diffyg cyfathrebu rhwng y trefnwyr a Chyngor Tref Abermaw. Nodwyd bod Mr Arnold (trefnwr y Motorcross) angen cadarnhad o ddyddiadau 2019 cyn mis Rhagfyr er mwyn trefnu'r digwyddiad. Ategwyd nad oedd modd newid y dyddiad ar gyfer 2018 gan fod rhaglen digwyddiadau Motorcross ar draws y wlad eisoes wedi ei chyhoeddi. Gwnaed awgrym y dylid osgoi penwythnosau hanner tymor mis Hydref (Gwynedd) a hefyd rhoi ystyriaeth i ddyddiad Sul y Cofio.

**Awgrymwyd 9/10 neu 16/17 o Dachwedd fel nad oedd gwrthdaro gyda hanner tymor. Nodwyd bod y digwyddiad yn un pwysig i'r ardal ac nad oedd eisiau ei gollu. Pwysleisiwyd yr angen i gadarnhau'r dyddiadau gyda Mr Arnold cyn mis Rhagfyr 2018**

**(c) Ffonau Gwasanaeth Brys Y Friog**

Amlygwyd, yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor i gyfleu i'r Aelod Cabinet perthnasol i waredu'r ffonau gwasanaethau brys oherwydd diffyg defnydd, nad oedd hyn wedi digwydd. Awgrymwyd, cyn gwaredu, y dylid ymgynghori ymhellach gyda Gwylwyr y Glannau a Mudiad y Bad Achub o ddefnydd y ffonau.

**(ch) Gweithgareddau FLAG (Fisheries Local Action Group)**

Adroddwyd bod y gweithgareddau wedi bod yn llwyddiannus a bod bwriad cynyddu'r fenter i'r dyfodol. Diolchwyd i bawb oedd wedi bod yn rhan o'r trefniadau.

Nododd y Cyngorydd Tref nad oedd wedi gallu mynychu cyfarfodydd Grwp FLAG yn yr ardal ac awgrymodd y dylid cynnig yr aelodaeth i rywun arall. Cadarnhawyd mai cynrychiolaeth gan unrhyw un o aelodau Cyngor Tref Abermaw oedd dymuniad y Grwp FLAG

**(d) Clirio Tywod**

Mewn datganiad nad oedd modd gweld y môr o Abermaw, nodwyd yn dilyn cyfarfodydd gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd nad oedd modd symud tywod. Er hynny, amlygwyd bod datganiadau positif wedi eu cynnwys mewn cylchgrawn yn mynegi bod y traeth yn adnodd bendigedig, y morglawdd yn boblogaidd a'r sianel yn glir.

**(dd) Carthu**

Rhagwelir mai Doc Fictoria a Harbwr Pwllheli yn unig fydd yn cael ei carthu

**(e) Cyngor Cymuned Arthog - rheoli mewn llifiad traffig**

Gyda mewnlifiad sylweddol o draffig twristiaeth i'r ardal adroddwyd er bod cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r Adran Trafnidiaeth ymddengys nad oedd pethau yn symud ymlaen i ymateb i'r cynnydd. Amlygwyd bod Cyngor Cymuned Arthog yn cydweithio gyda Grŵp yn Y Friog i geisio adfer rhai o'r materion oedd yn cynnwys camau

gweithredu i atal parcio dros nos. Cadarnhawyd bod yr Aelod Cabinet perthnasol yn derbyn copi o raglen y Pwyllgor ac felly yn ymwybodol o'r materion.

Mewn ymateb i sylw bod Cyngor Tref Y Bala wedi cyflogi swyddog gorfodaeth eu hunain, awgrymwyd y dylai'r Cyngorydd Louise Hughes gysylltu gyda'r Cyngorydd Tref am fanylion perthnasol deddf gorfodaeth, fel y gellid codi'r mater yng nghyfarfod nesaf Cyngor Cymuned Arthog

**(f) Difrod i reiliau tu allan i Adeilad Dora**

Adroddwyd mai Cyngor Gwynedd oedd wedi ysgwyddo'r baich am dalu am y difrod. Ategwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r perchennog gyda rhybudd, petai difrod pellach y byddai'r Cyngor yn cymryd camau i adennill costau.

**5. DIOGELWCH HARBWR**

Nodwyd nad oedd unrhyw fater o ran diogelwch harbwr wedi ei gyflwyno o fewn y cyfnod ond tynnwyd sylw at bryder bod plant ifanc yn dringo ar hyd yr adeiladau, cychod, cewyll ac offer pysgota yn Aberdyfi. Gwnaed sylw bod angen sicrhau bod y safle yn ddiogel a gwneud cais i berchennog unrhyw offer gwblhau asesiad risg.

**6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR**

**(a) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad cryno ar faterion yr Harbwr am y cyfnod rhwng Mawrth 2018 a Hydref 2018. Yn dilyn Haf arbennig gyda chynnydd sylweddol mewn niferoedd yn ymweld a'r ardal, adroddwyd nad oedd yr adnoddau'r Gwasanaeth yn ddigonol i ymateb i'r holl faterion ac amlygwyd hyn fel risg uchel. Ategwyd bod un ddamwain angheuol wedi digwydd a bod ymateb i'r crwner wedi ei weithredu. Nodwyd hefyd bod y staff yn gorfod delio gyda sefyllfaoedd anodd iawn ac mewn ymateb i hyn amlygwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu gyda Gwylwyr y Glannau i drafod y sefyllfa ymhellach. Adroddwyd bod y Gwasanaeth dan bwysau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â nifer yr angorfeydd yn lleihau, adroddwyd bod hyn yn batrwm sydd i'w weld mewn harbyrau naturiol. Ategwyd bod y diwydiant ei hun yn dioddef, ond er y lleihad nid oedd yn cael effaith ar y budd economaidd wrth edrych ar y sefyllfa yn ei gyfanrwydd e.e., gwelwyd cynnydd positif mewn niferodd cychod pŵer. Nododd yr Harbwr Feistr mai newid mewn diwylliant yw un rheswm dros leihad yn y nifer o gychod hwylio gyda'r angen am bŵer a chyflymdra yn cynyddu. Ategwyd bod cwsmeriaid angen 'prynu adnodd', megis angorfeydd, fel eitem ac mai proses hirwyntog yw'r broses sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

**I gyfarch hyn, awgrymwyd gwasanaeth hwyluso taliadau a gwnaed cais am adroddiad i'r cyfarfod nesaf yn rhestru'r opsiynau posib.**

Ategodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod adolygiad yn cael ei wneud gan y Gwasanaeth yn holi pam bod perchnogion angorfeydd wedi ymadael ac y byddai adroddiad ar y canfyddiadau yn cael ei gyflwyno (i bob Pwyllgor Harbwr ) ym mis Mawrth 2019.

Yng nghyd-destun, gosod angorfeydd, amlygwyd bod Cyngor Tref Abermaw wedi ystyried cyllido costau angorfeydd a bod bwriad ganddynt i godi arian ar gyfer pontwns. Amlygwyd yr angen i gadarnhau trefniadau perchnogaeth ac awgrymwyd

y dylai'r Cynghorydd Tref gyfarfod gyda'r Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwr Feistr i drafod ymhellach. O ran carthu, byddai angen trwydded i weithredu. Gyda chyllidebau'r Cyngor yn dynn ac yn wynebu toriadau pellach ni fyddai modd i'r Cyngor ariannu carthu'r Harbwr. Awgrymwyd y dylai'r Cynghorydd Tref ymgynghori gyda Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i gydsynio i ysgrifennu llythyr at CNC i gael gweithredu. Awgrymwyd bod y gymuned yn barod i godi'r arian.

Canmolwyd cymuned Abermaw am eu parodrwydd i gydweithio a cheisio'r gorau i'r dref yn wyneb toriadau i gyllidebau Cyngor Gwynedd. Dylid eu cymeradwyo a'u llongyfarch am eu gwaith da.

Adroddwyd bod archwilwyr yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau i ailymweld a'r gwasanaeth fis Hydref eleni fel dilyniant i'r adolygiad a gynhaliwyd 2017. Oherwydd amgylchiadau annisgwyl nodwyd y byddai rhaid gohirio'r ymweliad tan fis Mawrth 2019. Bydd gwahoddiad i holl Aelodau'r Pwyllgorau Ymgynghorol fynychu cyfarfod ym Mhorthmadog.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at fwriad y Gwasanaeth i gyflogi cymhorthydd harbwr llawn amser i weithio yn Harbyrau Abermaw, Aberdyfi a Porthmadog. Mewn ymateb y dylai'r gwasanaeth ystyried yn ofalus lle byddai'r swyddi yn cael eu hysbysebu a hefyd awgrym i geisio prentisiaethau. Gwnaed cais i'r Gwasanaeth rannu'r hysbyseb gyda'r Cyngor Tref.

#### (b) Adroddiad yr Harbwr Feistr

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Harbwr Feistr yn manylu ar faterion mordwyo, gweithredol a chynnal a chadw. Tynnwyd sylw at yr angen i wneud mwy o waith ar y materion canlynol:

- arwyddion diogelwch traeth Abermaw wedi bod yn llwyddiannus er bod angen mwy o arwyddion tebyg yn yr Harbwr oherwydd cynnydd yn y nifer o bobl sydd yn cerdded drwy'r Harbwr.
- Bod angen clirio ardal lloc y pysgotwyr gan ail leinio'r ardal. Awgrym i greu cytundeb newydd gydag amod i'w gadw'n lan.
- Y gellid defnyddio tir Ffordd y Compownd ar gyfer parcio. Angen eglurder pwy yw perchennog y tir a gwirio trefniadau gorfodaeth.  
**Gwnaed cais gan y Pwyllgor i roi gorchymyn traffig ar y tir gan fod 16 lle ar gael. Gellid cynnig man parcio gyda Lloc y Pysgotwyr am gost ychwanegol.**
- Rheolaeth pontŵn yr harbwr - Aelod Grŵp Mynediad Traphont Abermaw i drefnu cyfarfod gyda'r Harbwr Feistr i drafod ymhellach
- Cadw cychod dros y Gaeaf - angen annog defnyddwyr i aros. Cais i'r Harbwr Feistr ganfod syniadau gan ddefnyddwyr yr Harbwr am gymhelliant positif.
- Digwyddiadau - angen sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi gan Reolwr Digwyddiadau Cyngor Gwynedd fel llwyddiannau.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiadau.

## 8. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

### (a) Ystyried cynrychiolydd o Ymddiriedolaeth Mwynderau'r Friog fel aelod cyfetholedig ar y Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at Gylch Gorchwyl y Pwyllgorau Harbwr gan gadarnhau'r Aelodaeth

- hyd at 4 aelod lleol o Gyngor Gwynedd

- Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am bortffolio awdurdod harbwr
- Un aelod o Gyngor Tref
- Hyd at 7 aelod arall i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr harbwr

Gyda Aelodaeth bresennol Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw yn gyflawn byddai cais ychwanegol yn mynd tu hwnt i fframwaith gorfodaeth y Cyngor.

Amlygwyd bod sedd wag gan Cyngor Cymuned Arthog ac awgrymwyd y gellid penodi un cynrychiolydd fyddai yn cynrychioli dau gorff.

Nodwyd bod cynrychiolydd Grŵp Mynediad Traphont Abermaw wedi ymddiswyddo ac mai cyfrifoldeb y Gymdeithas oedd ethol cynrychiolydd newydd.

Nodwyd bod cynrychiolydd Ras y Tri Chopa hefyd yn dymuno ymddiswyddo ac mai cyfrifoldeb y Pwyllgor hwnnw fyddai ethol cynrychiolydd newydd

Pwysleisiwyd bod cyfrifoldeb ar y cyrff uchod i roi gwybod i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig neu'r Swyddog Cefnogi Aelodau o'r enwebiadau newydd.

Diolchwyd i Mr Mike Ellis (Pwyllgor Ras y Tri Chopa) am ei gyfraniad arbennig i'r Pwyllgor dros y blynyddoedd.

## **9. CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 26ain Mawrth, 2019.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:30pm



# Eitem 4

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>26 Mawrth 2019</b>
<b>TEITL</b>	<b>Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Uwch Swyddog Harbyrau</b>

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.
- 1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Hydref 2018 a Mawrth 2019, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yn Harbwr Abermaw.

## 2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod

- 2.1 Fel mae'r tymor yn nesáu mae ffurflenni cais angorfeydd wedi eu hanfon, a dim ond nifer gyfyngedig sydd wedi eu hanfon yn ôl hyd yma. O'r ymholiadau yn swyddfa'r harbwr hyderir y bydd nifer y cychod ar yr angorfeydd yn yr harbwr am y tymor a ddaw yn cynyddu ar nifer y llynedd sef 72 o gychod.
- 2.2 Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa aelodau'r Pwyllgor y dylid llenwi'r ffurflenni cais am angorfa a'u dychwelyd i Swyddfa Harbwr Abermaw cyn gynted â phosib, i ganiatau ar gyfer proses weinyddol effeithiol a dyrannu angorfeydd addas.

## 3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd

- 3.1.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Y nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu i fod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, cymorthyddion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol Harbwr Abermaw.

- 3.1.2 Rhwng 19 a 21 Medi 2017, cynhaliwyd archwiliad manwl gan archwilwyr yr Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau ar y trefniadau diogelwch penodol a systemau Harbyrau Bwrdeistrefol Gwynedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Diogelwch Morol.
- 3.1.3 Yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd, derbyniodd y Gwasanaeth adroddiad oedd yn awgrymu gwelliannau yn dilyn yr archwiliad ac mae hwn wedi ei dosbarthu o'r blaen i'r Pwyllgor Ymgynghorol.

3.1.4 Fel dilyniant i'r ymweliad cychwynnol, ymwelodd y Capten Forkanul Quadar o Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau â'r gwasanaeth ar y 5ed a'r 6ed o Fawrth a daeth i Harbwr Abermaw gan roi cyflwyniad i Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. Disgwylir adroddiad pellach gan Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau yn dilyn yr ymweliad.

#### 4. **Materion Staffio**

4.1.1 Fel yr adroddwyd yn y cyfarfod, daeth cyfnod cyflogaeth Cynorthwy-ydd Harbwr Abermaw (tymhorol) i ben ar 30 Medi 2018. Bydd swydd y Cymhorthwydd Harbwr Tymhorol am y tymor a ddaw yn cael ei hysbysebu yn fuan ac fe hyderir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ei swydd erbyn dechrau mis Mai.

4.1.2 Mae'r Gwasanaeth bellach mewn sefyllfa i gadarnhau fod dwy swydd Harbwrfeistr Cynorthwyol llawn-amser yn mynd i gael eu creu. Bydd un aelod ychwanegol o staff yn cael ei leoli yn Harbwr Porthmadog a'r llall yn Aberdyfi. Wedi iddynt gael ei penodi bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio ar draws yr holl harbyrau pan a phryd fo angen, gan gynorthwyo gyda'r gwaith morol. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn eu swyddi erbyn dechrau mis Mai.

#### 5. **Materion Ariannol**

5.1 Mae crynodeb bras o gyllidebau'r harbyrau a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd Chwefror 2019 yn atodol.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn bu'n rhaid ymrwyno adnoddau ariannol ar gyfer:-

- Cynnal a Chadw Cymorthyddion Mordwyo a Goleufeydd
- Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw cwch patrolio'r harbwr
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau.
- Cynnal a chadw Ysgolion a Rheiliau'r Harbwr

5.3 **Ffioedd a Thaliadau 2019/20.** Mae'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig yn Harbwr Abermaw ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Chychod Personol am 2019/20 yn atodol.

6.0 **Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Abermaw yn rhoi crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a weithredwyd ac a gododd yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2018 hyd Mawrth 2019, sy'n cynnwys materion cynnal a chadw a digwyddiadau a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod. Mae copi o'i adroddiad yn atodol.

**Harbwr Abermaw Harbour**  
**2019/20**

<b>Eithrio T.A.W</b>	<b>2018-19</b>		<b>2019-20</b>	<b>Prices exclude V.A.T</b>
Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr – Pob Cwch gan gynwys Ysgraff	<b>29.15</b>		<b>30.32</b>	Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues – All Craft including Ferries
Tollau Harbwr y fedr – pob cwch	<b>5.25</b>		<b>5.46</b>	Harbour Dues per meter – all vessels
Trwydded Angorfeydd Trwyn y Gwaith	<b>26.50</b>		<b>27.56</b>	Penrhyn Point Mooring License
Ffi Trwydded Angorfa Stad Y Goron-pob angorfa (Eithrwyd TAW)	<b>25.50</b>		<b>26.52</b>	Crown Estate Mooring License-all moorings (VAT exempt)
<b>Taliadau llithrfa cychod pŵer dros 10HP (eithrio BDP)</b>	<b>Fel rhestr lansio</b>		<b>Fel rhestr lansio</b>	<b>Slipway charges power boats over 10HP (not PW)</b>
<b>Cychod bychain, peiriant 10HP</b> Dyddiol Tymhorol	<b>Fel rhestr lansio</b>		<b>Fel rhestr lansio</b>	<b>Small boats engine, max 10HP</b> Daily Seasonal
<b>Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod</b>				<b>Visiting Vessels – Daily or part of day</b>
Cwch Ymweld-Daliwr Angorfa Harbyrau Gwynedd	<b>5.00</b>		<b>5.00</b>	Visiting Vessels-Gwynedd Harbour Mooring Holders
Cwch Ymweld-Pob Cwch Pleser arall	<b>8.33</b>		<b>8.33</b>	Visiting Vessels-All other pleasure vessels
Cychod cario teithwyr y fedr + Tollau Harbwr	<b>26.23</b>		<b>27.28</b>	Passenger carrying vessels <b>per metre</b> + Harbour Dues per meter
Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr y fedr	<b>26.23</b>		<b>27.28</b>	Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter
Cychod yn ymweld a'r harbwr y dydd neu rhan o'r dydd	<b>56.31</b>		<b>58.56</b>	Commercial vessels visiting per day or part of day
Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn)– Pysgotwyr llawn amser	<b>306.00</b>		<b>318.24</b>	Harbour compound (per annum) – Full time fishermen
Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn)– Defnyddwyr masnachol harbwr	<b>329.70</b>		<b>342.89</b>	Harbour Compound (per annum) – Harbour commercial users
Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn)– Defnyddwyr masnachol eraill	<b>380.95</b>		<b>396.19</b>	Harbour Compound (per annum) – Other commercial users.
Ffi cosb – Glanhau Ysbwriel	<b>84.99</b>		<b>88.39</b>	Penalty Costs – Removal of refuse
Gordal-defnydd tir tu allan i'r ardal benodedig y M <sup>2</sup> yr wythnos.	<b>5.10</b>		<b>5.30</b>	Surcharge – additional storage area outside of allocated plot - per M <sup>2</sup> per week.
Storio tymor yr haf ar diroedd harbwr y fedr. Ffi fesul wythnos neu rhan wythnos 01 Ebrill – 30 Medi	<b>6.80</b>		<b>7.08</b>	Summer Storage on harbour land per meter per week or part of week 01 April – 30 September
Storio tymor y gaeaf ar dir yr harbwr y fedr. Ffi fesul y mis neu unrhyw rhan o fis 01 Hydref – 31 Mawrth – isafswm 7 medr	<b>5.82</b>		<b>6.05</b>	Winter Storage on harbour land per metre per month or any part of month 01 October – 31 March – min 7mtrs
Rhent llogi angorfa Abermaw (os ar gael)	<b>259.47</b>		<b>269.85</b>	Mooring Rental Abermaw (if available)
Diddymu cais angorfa. Gorddewisol	<b>Rheol/Rule 1/18</b>		<b>Rheol/Rule 1/18</b>	Cancellation of mooring application. Discretionary

**Harbwr Abermaw Harbour**  
**2019/20**

<b>Cynnwys T.A.W</b>	<b>2019-20</b>	<b>Prices include V.A.T</b>
Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr – Pob Cwch gan gynnwys Ysgraff	<b>36.38</b>	Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues – All Craft including Ferries
Tollau Harbwr y fedr – pob cwch	<b>6.55</b>	Harbour Dues per meter – all vessels
Trwydded Angorfeydd Trwyn y Gwaith	<b>33.07</b>	Penrhyn Point Mooring License
Ffi Trwydded Angorfa Stad Y Goron-pob angorfa (Eithriwyd TAW)	<b>26.52</b>	Crown Estate Mooring License-all moorings (VAT exempt)
<b>Taliadau llithrfa cychod pŵer dros 10HP (eithrio BDP)</b>	<b>Fel rhestr lansio</b>	<b>Slipway charges power boats over 10HP (not PW)</b>
<b>Cychod bychain, peiriant 10HP</b> Dyddiol Tymhorol	<b>Fel rhestr lansio</b>	<b>Small boats engine, max 10HP</b> Daily Seasonal
<b>Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod</b>		<b>Visiting Vessels – Daily or part of day</b>
Cwch Ymweld-Daliwr Angorfa Harbyrau Gwynedd	<b>6.00</b>	Visiting Vessels-Gwynedd Harbour Mooring Holders
Cwch Ymweld-Pob Cwch Pleser arall	<b>10.00</b>	Visiting Vessels-All other pleasure vessels
Cychod cario teithwyr y fedr + Tollau Harbwr	<b>32.74</b>	Passenger carrying vessels <b>per metre</b> + Harbour Dues per meter
Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr y fedr	<b>32.74</b>	Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter
Cychod yn ymweld a'r harbwr y dydd neu rhan o'r dydd	<b>70.27</b>	Commercial vessels visiting per day or part of day
Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn)– Pysgotwyr llawn amser	<b>381.89</b>	Harbour compound (per annum) – Full time fishermen
Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn)– Defnyddwyr masnachol harbwr	<b>411.47</b>	Harbour Compound (per annum) – Harbour commercial users
Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn)– Defnyddwyr masnachol eraill	<b>475.43</b>	Harbour Compound (per annum) – Other commercial users.
Ffi cosb – Glanhau Ysbwriel	<b>106.07</b>	Penalty Costs – Removal of refuse
Gordal-defnydd tir tu allan i'r ardal benodedig y M <sup>2</sup> yr wythnos.	<b>6.36</b>	Surcharge – additional storage area outside of allocated plot - per M <sup>2</sup> per week.
Storio tymor yr haf ar diroedd harbwr y fedr. Ffi fesul wythnos neu rhan wythnos 01 Ebrill – 30 Medi	<b>8.49</b>	Summer Storage on harbour land per meter per week or part of week 01 April – 30 September
Storio tymor y gaeaf ar dir yr harbwr y fedr. Ffi fesul y mis neu unrhyw rhan o fis 01 Hydref – 31 Mawrth – isafswm 7 medr	<b>7.26</b>	Winter Storage on harbour land per metre per month or any part of month 01 October – 31 March – min 7mtrs
Rhent llogi angorfa Abermaw (os ar gael)	<b>323.81</b>	Mooring Rental Abermaw (if available)
Diddymu cais angorfa. Gorddewisol	<b>Rheol/Rule 1/18</b>	Cancellation of mooring application. Discretionary

**Ffioedd Lansio a Cofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol**  
**Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees**

**01/04/2019 – 31/03/2020**

**Holl ffioedd yn cynnwys TAW / All fees inclusive of VAT**

	<b>Ffi Adnewyddiad (Trwyddedau Bach)</b>	2019/20	<b>Renewal Fees (Small Permits)</b>
	Ail-cofrestru Blynyddol	£35.00	Annual Re-registration
	<b>Ceisiadau Llestr Newydd (Trwyddedau Mawr a Bach)</b>		<b>New Vessel Applications (Large and Small Permits)</b>
	Cofrestru Blynyddol	£45.00	Annual Registration
	<b>Ffi Lansio</b>		<b>Launching Fees</b>
Tud. 13	Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinoll Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan ( <b>yn cynnwys parcio</b> )	£10.00 £13.00	Daily launch – General Slipways/Beaches Daily launch – Morfa Bychan Beach ( <b>includes parking</b> )
	Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth) <b><u>Cynnwys Ffi Cofrestru</u></b>	£150.00	Annual Launching Permits (1 April – 31 March) <b><u>Inclusive of Registration Fee</u></b>
<p><b>Only Postal Applications are accepted at the Main Council Offices in Pwllheli.</b>  <b>In Person applications will be processed on the day at any of the Council's harbour offices, or during the summer season at the main resort beaches.</b></p>			
	<b>Trosglwyddo / Aiddodiad</b>		<b>Transfer / Replacement</b>
	Ceisiadau drwy'r post yn unig i <b><u>Swyddfa Forwrol y Cyngor ym Mhwllheli</u></b>	£45.00	Postal application only to the <b><u>Council Maritime Office in Pwllheli</u></b>
	<b>Cychod llai na 10 HP (Dim Ffi Lansio)</b>		<b>Vessels under 10 HP (No Launch Fee)</b>
	Ffi Cofrestru Blynyddol – <b><u>Ceisiadau Mewn Person yn Unig</u></b>  Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio	£30.00	Annual Registration Fee – <b><u>In Person Application Only</u></b>  <b>At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection</b>

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>26ain Mawrth 2019</b>
<b>TEITL</b>	<b>Adroddiad yr Harbwrfeistr</b>
<b>AWDUR</b>	<b>A.G. Jones Harbwrfeistr Abermaw</b>

## 1. Materion Mordwyo

- 1.1. Mae'r cymhorthion mordwyo sy'n marcio'r sianel ddynesu at harbwr Abermaw wedi aros yn eu lle yn ystod misoedd y gaeaf. Er hynny, achosodd storm 'Freya' i'r marc starbord llaw oedd yn amddiffyn y bibell arllwysfa carthion yn safle 52°43.60'N 004° 04.42'W i gael ei olchi i'r lan. Cyflwynwyd Hysbysiad Lleol i Forwyr am y cymhorthydd mordwyo yma a hyderir y bydd y bwi yn ôl yn ei le cyn gynted â phosib gyda chymorth Dŵr Cymru a Thŷ'r Drindod.
- 1.2. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fonitro'r angen i osod marc mordwyo ym mynedfa'r Harbwr i amddiffyn morwyr rhag traethell o gregyn gleision sy'n tyfu y tu mewn i'r morglawdd ac mae cynlluniau'n parhau i roi marc mordwyo ychwanegol rhwng Craig y Perch a morglawdd yr harbwr i wella diogelwch mordwyo.
- 1.3. Mae'r darlun presennol o'r sianel fordwyo yn debyg i'r un a gyflwynwyd ym mis Medi diwethaf. Disgwylir i arolygon pellach o'r sianel y gellid ei mordwyo gael eu cynnal cyn y Pasg a bydd unrhyw waith angenrheidiol i symud marciau'r sianel yn cael ei wneud wedi hynny. Mae'r Gwasanaeth yn archwilio'r sianel yn rheolaidd ar lanw isel yn ogystal â defnyddio cwch yr harbwr pan fo hynny'n ymarferol i gynnal arolygon, i geisio sicrhau bod y cymhorthyddion mordwyo yn y lle mwyaf addas.

## 2 Materion Gweithredol

- 2.1. Yn ystod Ionawr a Chwefor mae gweithwyr Railtrack a chontractwyr cysylltiedig wedi bod yn cynnal archwiliad manwl o draphont Abermaw sy'n croesi dros yr aber. Nodwyd y bydd angen newid dros 1700 darn o goed ynghyd â gwaith arall, er mwyn cynnal y draphont hanesyddol yma. Disgwylir i'r gwaith angehrheidiol ar y draphont cael ei ymgymryd dros gyfnod o dair blynedd. Hyd yma, nid ydym wedi derbyn unrhyw hysbysiad gan y Gwasanaeth ynglŷn â phryd fydd y gwaith yn dechrau.
- 2.2. Fel y llynedd, rhagwelir y bydd archwiliad o angorfeydd ymwelwyr i'r harbwr yn cael ei gynnal i baratoi ar gyfer y tymor a ddaw. Cynhelir archwiliad o'r angorfeydd 'Trot' sy'n eiddo i'r Cyngor gan yr harbwrfeistr, gyda chymorth gweithwyr eraill o'r Gwasanaeth.
- 2.3. Bydd Awudurdod yr Harbwr yn parhau i ymgymryd â gwaith i dynnu angorfeydd anniogel a segur sy'n bresennol yn yr harbwr. Yn unol â hyn dymuna'r gwasanaeth atgoffa defnyddwyr yr harbwr o'r angen i gydymffurfio gyda Is-ddeddf Rhif 5 o Is-ddeddfau Harbwr Aberdyfi ac Abermaw sy'n datgan:

*"Bydd perchennog offer angori yn archwilio ei offer angori yn flynyddol i sicrhau ei fod mewn cyflwr da, a bydd yn dangos Tystysgrif i'r Cyngor i gadarnhau hyn wrth ymgeisio i ad-leoli'r angorfa".*

- 2.4 O safbwynt y mater yma, mae'r Gwasanaeth yn edrych i gyflwyno Tystysgrif Cyflwr ddiwygiedig i offer angori ac mae copi yn amgaeedig er sylw'r Pwyllgor.
- 2.5 Fel rhan o adolygiad cyffredinol Is-ddeddfau Harbwr ar draws harbyrau Gwynedd, bydd adolygiad o Is-ddeddfau'r harbwr sy'n berthnasol i Harbwr Abermaw hefyd yn cael ei gynnal.

### **3 Cynnal a Chadw**

- 3.1 Prynwyd dwy ysgol newydd a'u gosod ar wal yr harbwr yn lle'r ysgolion oedd angen eu newid. Bydd clustogau pren yn awr yn cael eu gosod ar yr ysgolion dan sylw.
- 3.2 Mae gwaith cynnal a chadw wedi ei ymgymryd ar rheiliau'r harbwr sydd yn gwarchod ochr y cei er bod mwy o ddifrod wedi digwydd yn ddiweddar a achoswyd gan gychod wedi angori. Bydd angen ymgymryd â rhagor o waith oherwydd hyn.
- 3.3 Mae gweithwyr y Gwasanaeth wedi ymgymryd â gwaith cynnal a chadw yn Nhrwyn Fairbourne gan gynnwys gosod arwyddion newydd yn eu lle.
- 3.4 Bydd yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r rhaglen gwaith cynnal a chadw a wnaed yn Harbwr Abermaw yn ystod y cyfnod rhwng Hydref 2018 a Mawrth 2019.

### **4. Materion Eraill**

- 4.1 **Arwyddion Diogelwch** Mewn partneriaeth â'r RNLI, bydd arwyddion diogelwch yn cael eu harddangos mewn manau strategol o amgylch yr harbwr yn barod ar gyfer y tymor a ddaw. Mae'r gwasanaeth yn ddiolchgar am y gwaith a wnaed o ran hyn gan Mr Trefor Lewis, RNLI.
- 4.2 **Lloc y Pysgotwyr.** Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o Loc y Pysgotwyr a bydd yn ysgrifennu at ddeiliaid y lloc i ofyn iddynt symud gwastraff a deunyddiau diangen o'r safle. Wedyn, bydd y gwasanaeth yn ystyried atgyfnerthu marciau'r llinellau ar y lleiniau unigol yn y lloc.
- 4.3 **Parcio yn yr Harbwr.** Mae'r Gwasanaeth yn dal i weithio tuag at gael manau parcio dynodedig ar Ffordd y Compownd i helpu Gweithredwyr Masnachol a Deiliaid Ardal y Lloc ddal ati gyda'u gweithgareddau yn yr harbwr. Mae rheolaeth o'r ardal yn dal i gael ei drafod i atal y cyhoedd rhag parcio ar hap ac yn unrhywle, a dymuna Awdurdod yr Harbwr atgoffa defnyddwyr gwasanaeth o'r angen i ddefnyddio'r rhwystr ger mynedfa'r cyfleuster yn effeithiol.
- 4.3.1 Byddwn yn parhau i ofyn am gymorth gan swyddogion gorfodaeth pan a phryd fo angen, i hwyluso mynediad rhwydd a di-rwystr i'r lithrfa i ddefnyddwyr yr harbwr o ran y marciau ffordd ger adeilad 'SS Dora'.
- 4.4 **Pontŵn yr Harbwr** Mae cynrychiolwyr o Ymddiredolaeth Cymuned Abermaw wedi cyfarfod gyda'r Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwrfeistr am berchnogaeth a gweithrediad rheolaethol y pontŵn yn yr harbwr. Mae'r Gwasanaeth yn aros ar hyn o bryd am wybodaeth ysgrifenedig gan aelodau'r Ymddiredolaeth am y mater yma. Yn y cyfamser, ar gais Aelodau'r Ymddiredolaeth, mae'r Gwasanaeth wedi symud bysedd y pontŵn o draeth y Baddondy i'r lan iddynt dderbyn sylw.

- 4.4.1 Gobeithir y bydd aelod o'r grŵp sy'n ceisio sicrhau dyfodol y pontŵn yn gallu rhoi diweddariad yn y cyfarfod ar y sefyllfa gyfredol ynglŷn â dyfodol y pontŵn.
- 4.5 **Grisiau'r Harbwr:** Fel rhan o'r gwaith angenrheidiol ar ben gogleddol y Promenâd, mae staff o'r Uned Rheoli Perygl Llifogydd a'r Arfordir wedi rhoi gwybod y bydd gwaith atgyweirio i risiau carreg yr harbwr yn digwydd ar yr un pryd. Mae'r Gwasanaeth yn aros am gadarnhad ynglŷn â phryd fydd y gwaith yma'n dechrau.
- 4.6 **Clirio Tywod** Bydd y gwasanaeth yn gweithio gyda'r Adran Briffyrdd i symud tywod o'r promenâd ac Ynys y Brawd cyn y Pasg.
- 4.7 **Cadw cychod dros y Gaeaf.** Yn dilyn ymgynghoriad gyda Gwasanaeth Parcio'r Cyngor, rhoddwyd caniatâd i storio cychod ar y maes parcio ger y Ganolfan Hamdden am y cyfnod rhwng 1 Hydref i'r 31 Mawrth. Er i ni gael ceisiadau am y cyfleuster yma gan ddefnyddwyr yr harbwr, dim ond dau gwch sydd wedi bod yno. Rydym yn gobeithio y bydd y cyfleuster yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf ar ddiwedd y tymor a ddaw.

## 5. **Digwyddiadau**

- 5.1 Hyd yma, mae ceisiadau wedi eu derbyn i gynnal y digwyddiadau isod yn Harbwr Abermaw yn 2019:-

- Ras y Tri Chopa (15fed Mehefin)
- Digwyddiad Elusenol Beiciau Dŵr Porthmadog - Abermaw - Aberdyfi (22ain Mehefin)
- Gŵyl Farcud (6-7fed Gorffennaf)
- Gŵyl Fwyd Abermaw (21ain Gorffennaf)
- Digwyddiad Motorcross (12-13eg Hydref)

Mae'r Gwasanaeth yn aros am fanylion o ran y digwyddiadau isod yn ystod y tymor a ddaw;

- Gŵyl Chwaraeon Padlo
- Cymdeithas Nofio 'Digwyddiad Hwrlibwrli'

- 5.2 Dymuna'r Gwasanaeth atgoffa aelodau ei bod yn hanfodol fod Awdurdod yr Harbwr yn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig yn yr Harbwr a dylid gofyn am ganiatâd, cyn gynted ag y bo modd.



January 2019

Not to scale  
Not to be used for Navigation

Tud. 17

